## Penodi Uwch Gymedrolwr

# TAG (CBAC) Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant Uned 6: Cefnogi oedolion i gynnal iechyd, llesiant a gwydnwch

Mae angen Uwch Gymedrolwr ar gyfer CBAC TAG Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant Uned 6 (Cefnogi oedolion i gynnal iechyd, llesiant a gwydnwch). Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus gadw mewn cysylltiad agos â'r tîm TAG Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant a sicrhau bod gofynion y cymhwyster hwn yn cael eu bodloni'n llawn. Disgwylir iddo/iddi adolygu a newid y briffiau cynhyrchu gosod (Asesiad Di-arholiad) yn flynyddol a phan fo angen, cyfrannu at hyfforddi cymedrolwyr, ac arwain y broses safoni yng nghynhadledd y cymedrolwyr. Hefyd, bydd disgwyl iddo/iddi gyfrannu at gyflwyno'r rhaglen DPP a bod yn rhan o'r tîm yn ystod y broses ddyfarnu.

**Cyfrifoldebau Uwch Gymedrolwyr**

Mae'r Uwch Gymedrolwr yn gyfrifol am safonau cymedroli'r gwaith a asesir yn fewnol mewn canolfannau. Rhaid i'r Uwch Gymedrolwr wneud y canlynol:

- cynghori ar benodi, hyfforddi ac ailbenodi arweinwyr tîm a chymedrolwyr, lle bo angen gwneud hynny
- adolygu a newid y briffiau cynhyrchu gosod (Asesiad Di-arholiad) o bryd i'w gilydd ac os bydd angen
- mynychu a goruchwylio cynadleddau cymedrolwyr a/neu gyfarfodydd ar gyfer dethol eitemau safoni fel y bo'n briodol, yn ogystal â mynychu cyfarfodydd dyfarnu yn ôl gofynion CBAC
- goruchwylio gwaith aelodau ei d/thîm ac archwilio, drwy samplu, safonau marcio cymedrolwyr
- monitro safonau cymedrolwyr yr uned, gan gynnwys, lle bo angen, unrhyw gymedrolwyr cynorthwyol ac arweinwyr tîm, a chymryd camau priodol i sicrhau cywirdeb a chysondeb
- goruchwylio a chymeradwyo adroddiadau ar gyfer canolfannau y mae'r cymedrolwyr yn eu paratoi
- paratoi adroddiad cyffredinol ar yr uned ar fformat a ddiffinnir gan CBAC
- bod ar gael i ymgymryd ag adolygu'r marcio ym mhob sesiwn yn ôl gofynion CBAC yn ymwneud ag Ymholiadau am Ganlyniadau yn ystod y cyfnodau perthnasol

Mae swydd yr Uwch Gymedrolwr yn ganolog i weithrediad y cymhwyster ac mae angen ymrwymo amser sylweddol iddi. Mae angen i Uwch Gymedrolwr fod ar gael am o leiaf 5 diwrnod y flwyddyn. Gall y cyfnod hwn gynnwys dyddiau yn ystod y tymor, ar benwythnosau ac yn ystod y gwyliau. Mae taliadau rhyddhau ar gael i ganolfannau. Bydd hyn yn galluogi deiliad y swydd i fynychu cynadleddau cymedrolwyr (dau ddiwrnod) a'r cynadleddau dyfarnu ym mis Gorffennaf (dau ddiwrnod). Yn ogystal, efallai y bydd gofyn i Uwch Gymedrolwr wneud cyflwyniadau yn nigwyddiadau DPP CBAC.

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â karen.bushell@cbac.co.uk. Y dyddiad cau i gyflwyno ceisiadau yw **11 Chwefror 2025**.

**Sut i wneud cais**:
Os ydych chi'n dymuno gwneud cais am y swydd, ac **nad ydych yn gweithio i CBAC ar hyn o bryd**, ewch i https://penodedigion.cbac.co.uk/ a chlicio ar 'Gwneud Cais i fod yn Arholwr' i lenwi'r ffurflen gais.

**Os ydych chi'n gweithio i CBAC ar hyn o bryd**, mewngofnodwch i'ch cyfrif Porth Rheoli Penodedigion (gan ddefnyddio eich enw defnyddiwr newydd) a chliciwch ar yr eicon 'Fy Nghais' ar yr hafan. Sicrhewch eich bod yn ychwanegu rôl yr **Uwch Gymedrolwr** ar gyfer **CBAC TAG Iechyd a Gofal Cymdeithasol Uned 6** ar y tab 'maes pwnc'. Sicrhewch fod pob adran arall o'ch cais wedi'i chwblhau, gan gynnwys eich cymwysterau a'ch cyflogaeth, a bod eich datganiad cefnogi yn adlewyrchu eich cais ar gyfer y rôl hon.

Os oes angen unrhyw gymorth pellach arnoch wrth lenwi'r ffurflen gais, cysylltwch â:-

Rob Reynolds
rob.reynolds@cbac.co.uk
02920 265050

Rabina Chowdhury
rabina.chowdhury@cbac.co.uk
02920 265019